

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026



Dyddiad	Dydd ac Amser	Manylion Cwrs	Darparwr	Lleoliad	Pris
Ionawr 17^{eg}	Dydd Sadwrn 17 ^{eg} 9:30yb – 4:30yp	Diogelu Grŵp B Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fynychu'r hyfforddiant hwn fel rhywbeth gorfodol. Safonau Diogelu Grŵp B Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Ionawr 21^{ain}	Dydd Mercher 21 ^{ain} 6yh – 8yh	Hyfforddiant Llythrennedd Corfforol Mae'r Tîm Pobl Ifanc Egnïol yn ymdrechu i helpu pob plentyn i ddatblygu llythrennedd corfforol trwy feithrin eu cymhelliad, eu hyder a'u dealltwriaeth o sgiliau corfforol mewn amgylchedd cefnogol o oedran ifanc, gan hyrwyddo gweithgarwch gydol oes a lles. Bydd yr hyfforddiant yn eich helpu i ddatblygu sgiliau corfforol plant ifanc, trefnu gweithgareddau haul, diogel a phwrpasol a gwella eich hyder eich hun wrth gyflwyno sesiynau gweithgarwch corfforol. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Actif	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Ionawr 22^{ain} a 24^{ain}	Dydd Iau 22^{ain} 6yh – 9yh Dydd Sadwrn 24^{ain} 9yb – 6yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig – Llawn (12 awr) Nod hyfforddiant pediatrig llawn yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig i staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc gan ofalu amdanynt. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle ceir un swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru plant a babanod, tagu, sioc, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, anhwylderau anadlu, trawiadau, anafiadau	LifeLine Training & Operations Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID, trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026

		i'r pen, toriadau, cyflyrau plentyndod, adweithiau alergaidd, gwres ac oerfel. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Ionawr 27^{ain} a'r 29^{ain}	Dydd Mawrth 27^{ain} 6yh – 9yh Dydd Iau 29^{ain} 6yh – 9yh	Datblygiad Plant Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o ddatblygiad plant yn hanfodol i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant. Mae cyfarwyddyd â phatrwm datblygiadol nodweddiadol yn galluogi ymarferwyr i gydnabod pan gall plentyn fod yn wynebu anawsterau ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn gwneud cynnydd ym mhob ardal ddatblygiadol. Gall gafael cryf ar egwyddorion datblygu wella diogelwch plant, hyrwyddo lles cyffredinol, cynorthwyo mewn asesiadau, a chyfeirio at ddewis ymyriadau a chymorth priodol wedi'u teilwra i anghenion unigol. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant rhwng 0-12 oed ac sy'n ceisio dyfnhau eu gwybodaeth am ddisgwyliadau datblygiadol ar wahanol gamau a sut y gallant gefnogi plant yn effeithiol yn eu rolau. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Plant yng Nghymru	<i>Ar-lein drwy Teams</i>	Dim cost £0
Chwefror 3ydd	Dydd Mawrth 3ydd 6yh – 9yh	Trin â Llaw Nod y cwrs hyn yw edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â thasgau trin â llaw. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i'r cynrychiolwyr i'w cynorthwyo i symud gwrthrych difywyd ac yn dysgu technegau codi cywir i osgoi anaf. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Hyfforddiant First Rate Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Chwefror 7fed	Dydd Sadwrn 7^{fed} 9:30yb – 4:30yp	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Pediatrig - Argyfwng (6 awr) Nod hyfforddiant pediatrig brys yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf pediatrig staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc ac yn gofalu amdanynt. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, tagu, trawiadau, sioc ac adweithiau alergaidd.	LifeLine Training & Operations Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID,	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026

		<u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG		
Chwefror 10^{fed} a 12^{fed}	Dydd Mawrth 10 ^{fed} 6yh – 9yh Dydd Iau 12 ^{fed} 6yh – 9yh	Diogelu Grŵp B Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant fynychu'r hyfforddiant hwn fel rhywbeth gorfodol. Safonau Diogelu Grŵp B Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Chwefror 24^{ain}	Dydd Mawrth 24 ^{ain} 6yh – 8yh	Cyflwyniad i Chwarae Mae Tîm Chwarae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu Gweithdy 2 awr, heb achrediad, o'r enw 'Cyflwyniad i Chwarae'. Yn ystod y gweithdy hwn byddwch yn dysgu am bwysigrwydd chwarae drwy ymdrin â rhai cysyniadau adnabyddus sy'n hanfodol i gefnogi chwarae i blant, gan gynnwys theori chwarae, egwyddorion gwaith chwarae a hawliau plant i chwarae. Byddwn yn trafod rôl yr oedolyn wrth greu cyfleoedd chwarae a ffyrdd y gallwch chi eirioli dros chwarae yn eich lleoliad a gyda theuluoedd. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	CSG Tîm Chwarae	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Chwefror 26^{ain}	Dydd Iau 26 ^{ain} 6yh – 9yh	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Archwilio Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chael gwell dealltwriaeth o'u heffaith ar blant ac oedolion yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cael gwell dealltwriaeth o gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, cam-drin domestig a thrais a'u heffeithiau ar blant. Bydd hefyd yn darparu cynrychiolwyr i archwilio plentyndod "Da" a chynyddu gwybodaeth am Wydnwch a meddu ar y sgiliau a'r hyder i feithrin gwytnwch gyda phlant a phobl ifanc. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Plant Yng Nghymru	<i>Ar-lein drwy Teams</i>	Dim cost £0
Mawrth 3^{ydd} a 5^{ed}	Dydd Mawrth 3 ^{ydd} 6yh – 9yh Dydd Iau 5 ^{ed}	Niwroamrywiaeth Dealltwriaeth i ymarferwyr ar beth yw niwroamrywiaeth a'r buddion a ddaw yn ei sgil. Bydd hefyd yn archwilio natur amrywiol meddyliau niwroamrywiol, sut i	Plant Yng Nghymru	<i>Ar-lein drwy Teams</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026

	6yh – 9yh	gefnogi plant niwroamrywiol orau, a chreu amgylchedd cynhwysol. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Mawrth 7^{fed} a 14^{eg}	Dydd Sadwrn 7^{fed} 9:30yb – 4:30yp Dydd Sadwrn 14^{eg} 9:30yb – 4:30yp	Diogelu Grŵp C Staff sydd â rôl flaenllaw o fewn penderfyniadau diogelu gan gynnwys person diogelu dynodedig y sefydliad. Safonau Diogelu Grŵp C Gofal Cymdeithasol Cymru **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	New Pathways	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Mawrth 19^{eg} a 21^{ain}	Dydd Iau 19^{eg} 6yh – 9yh Dydd Sadwrn 21^{ain} 9yb – 6yh	Cwrs Achrededig Cymorth Cyntaf Peditrig – Llawn (12 awr) Nod hyfforddiant peditrig llawn yw darparu cymhwyster cymorth cyntaf peditrig i staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc gan ofalu amdanynt. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer sefyllfaoedd lle ceir un swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r cwrs hwn yn cynnwys rheoli anafiadau anymwybodol, dadebru plant a babanod, tagu, sioc, clwyfau a gwaedu, mân losgiadau, anhwylderau anadlu, trawiadau, anafiadau i'r pen, toriadau, cyflyrau plentynod, adweithiau alergaidd, gwres ac oerfel. **Rhaid mynychu'r ddau ddyddiad hyfforddi** <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	LifeLine Training & Operations Esgidiau a dillad addas i'w gwisgo Math o ffotograffig ID, trwydded yrru/ passport/ cerdyn CSG	<i>Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3NQ</i>	Dim cost £0
Mawrth 23^{ain}	Dydd Llun 23 ^{ain} 1yp – 3:30yp	Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar <u>Ydych chi'n hyderus gyda Chanllawiau Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru?</u> Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi trosolwg clir o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Chwarae, Dysgu a Gofal Plentynod Cynnar—wedi'u cynllunio ar gyfer gofal plant, lleoliadau chwarae, ac unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant 0–3 oed. Bydd hyfforddiant yn rhoi i chi: -	CSG Ymgynghory dd Blynyddoedd Cynnar	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026

		- Gwybodaeth gyfredol am adnoddau a chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru - Hyder ac eglurder wrth gymhwyso canllawiau i'ch ymarfer dyddiol - Offer i wella ansawdd a chydymffurfiaeth yn eich lleoliad <u>Ar gyfer pwy?</u> Darparwyr gofal plant, lleoliadau chwarae, ac unrhyw un sy'n gofalu am blant 0–3 oed. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>			
Mawrth 24^{ain}	Dydd Mawrth 24 ^{ain} 6yh – 7:30yh	Cyflwyniad i Chwarae Rhannau Rhydd Mae Tîm Chwarae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn darparu Gweithdy 90 munud, heb achrediad, o'r enw 'Cyflwyniad i Chwarae Rhannau Rhydd'. Yn ystod y gweithdy hwn byddwch yn dysgu am chwarae rhannau rhydd a'i fanteision yn natblygiad plant. Bydd cyfranogwyr yn dysgu'r theori y tu ôl i chwarae rhannau rhydd, yn archwilio'r amrywiaeth o fanteision y mae'r ffurf hon o chwarae yn ei gynnig, ac yn cael mewnwelediadau ymarferol i sut i weithredu a hwyluso chwarae rhannau rhydd yn eich lleoliad. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	CSG Tîm Chwarae	<i>Canolfan Pentre Awel, Pentre Awel, Ardal 1, Llanelli, SA15 2EZ</i>	Dim cost £0
Mawrth 27^{ain}	Dydd Gwener 27 ^{ain} 9yb – 3yp	Hyfforddiant ADY Blynnyddoedd Cynnar <u>Sut i gefnogi anghenion sy'n dod i'r amlwg ac adnabod anghenion ychwanegol o fewn y lleoliad Meithrin.</u> Mae'r hyfforddiant yn anelu at ddatblygu hyder a sgiliau'r staff wrth adnabod anghenion sy'n dod i'r amlwg ac oedi datblygiadol. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys damcaniaeth, gweithgareddau ymarferol ac ymyraethau. Bydd pwyslais ar weithgareddau ymarferol ac ymyraethau a all gefnogi plant o fewn y lleoliad Meithrin, gan ddatblygu hyder a sgiliau'r staff i ddefnyddio strategaethau wrth weithio gyda phlant sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg. Trwy gydol y dydd, bydd cyfle i arsylwi arfer da. Bydd adnoddau y gellir eu defnyddio o fewn y lleoliad Meithrin yn cael eu harddangos yn yr hyfforddiant. <u>Ni chaniateir mynediad i gyfranogwyr os ydynt 10 munud yn hwyr.</u>	Tîm ADY Blwyddyn Cynnar	<i>Neuadd Y Gwendraeth, Drefach SA14 7AG</i> <i>Ystafelloedd: Cynheidre a Pentremawr</i>	Dim cost £0

Rhaglen Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2026

Ionawr – Mawrth	Ddim yn benodol dyddiad – porth ar-lein. Mae'n rhaid i chi gofrestru a chwblhau o fewn 14 diwrnod ar ôl cofrestru.	Hylandid Bwyd Lefel 2 Mae'r cwrs Lefel 2 yn addysgu hanfodion diogelwch bwyd ac mae'n addas ar gyfer pob gweithiwr sy'n trin, paratoi a gweini bwyd. Mae'r cwrs yn ymdrin â chyfrifoldebau cyfreithiol gweithwyr mewn amgylchedd bwyd, ac yn mynd i'r afael yn gynhwysfawr â bygythiadau diogelwch bwyd a'r arfer da sydd ei angen i'w lleihau. Bydd dysgwyr hefyd yn ymdrin â gofynion penodol sector y Blynnyddoedd Cynnar. <u>Mae'n ofynnol i gyfranogwyr gwblhau'r hyfforddiant llawn (4-6 awr) i dderbyn tystysgrif.</u>	The Safer Food Group	Cyrchwyd trwy The Safer Food Group - Cyrsiau Hyfforddiant Ar-lein	Dim cost £0
Ionawr – Mawrth	Ddim yn benodol dyddiad	Hyfforddiant Alergerdd ac Anoddefiad Bwyd Dysgu mwy am alergeddau bwyd a sut i drin alergenau yn ddiogel. Caiff hyn ei gydnabod gan AGC fel yr hyfforddiant angenrheidiol wrth weithio gyda bwyd ac anoddefiadau. <u>Mae'n ofynnol i gyfranogwyr gwblhau'r hyfforddiant llawn (1 i 6 modiwl) i dderbyn tystysgrif.</u>	Asiantaeth Safonau Bwyd	Cyrchwyd trwy Hafan FSA Food Allergy Training	Dim cost £0